OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 931 (Cy.121)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - - 26 Mawrth 2003

Yn dod i rym - - 7 Ebrill 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 22(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac adrannau 54(1), 55(7) a 64(6) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 7 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig(**3**).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cyfarwyddiadau" ("*the Directions*") yw Cyfarwyddiadau Deddf Cymorth Gwladol 1948 (Dewis Llety) 1993(**4**)

ystyr "Deddf 2001" ("*the 2001 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001;

(**1**) 1948 p.29. Mae erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, yn trosglwyddo holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1948, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) 2001 p.15.

(**3**) Er bod adran 54 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ("Deddf 2001") yn cwmpasu Cymru a Lloegr, gwneir y Rheoliadau hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef yr awdurdod perthnasol sydd â'r grym i wneud rheoliadau i Gymru yn unig, *gweler* adran 66 o Ddeddf 2001.

(**4**) Cyhoeddwyd y Cyfarwyddiadau dyddiedig 21 Ionawr 1993 gan y Swyddfa Gymreig ynghyd â Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig Rhif 12/93.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cymorth Gwladol 1948(**5**);

ystyr "llety dewisol" ("*preferred accommodation*") yw llety y mae'r preswylydd yn ei nodi, mewn lle y mae'r preswylydd yn ei ddewis o fewn Cymru a Lloegr, yn unol â pharagraff 2 o'r Cyfarwyddiadau;

ystyr "llety dewisol perthnasol" ("*relevant preferred accommodation*") yw llety dewisol sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 3(a), (c) a (d) o'r Cyfarwyddiadau, ond lle y byddai cost darparu'r llety dewisol hwnnw i'r preswylydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol dalu mwy nag y byddai'r awdurdod hwnnw yn disgwyl ei dalu fel arfer er mwyn darparu llety Rhan 3 sy'n addas i berson sydd â'r anghenion a aseswyd i'r preswylydd hwnnw;

ystyr "preswylydd" ("*resident*") yw person y mae'r awdurdod lleol wedi ei asesu o dan adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**6**) fel un sydd ag angen llety yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf (os yw'r person hwnnw wedi dechrau preswylio mewn llety o'r fath ai peidio);

ystyr "preswylydd perthnasol" ("*relevant resident*") yw preswylydd—

(a) y mae paragraff 1A o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Asesu (cyfalaf i'w ddiystyru yn ystod y 12 wythnos cyntaf) yn gymwys iddo yn ystod y cyfnod pan fydd yn gymwys, neu

(b) sydd wedi gwneud neu sydd wedi cytuno i wneud cytundeb taliad gohiriedig â'r awdurdod lleol, fel y darperir ar ei gyfer yn adran 55 o Ddeddf 2001;

ystyr "y Rheoliadau Asesu" ("*the Assessment Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**7**)); ac

ystyr "terfyn cyfalaf isaf" ("*lower capital limit*") yw'r terfyn isaf o'r ddau faint o gyfalaf a bennir yn rheoliad 28 o'r Rheoliadau Asesu.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol fel arall, mae cyfeiriad—

(a) at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y Rhif hwnnw; a

(b) mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y Rhif hwnnw.

Taliadau Ychwanegol

3.—(1) Mae rheoliad 4 yn gymwys os yw preswylydd wedi nodi ei fod am gael llety mewn llety dewisol perthnasol.

(2) Nid yw rheoliad 4 yn gymwys i unrhyw drefniadau a wnaed o dan baragraff 4 o'r Cyfarwyddiadau cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

4.—(1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety dewisol perthnasol i breswylydd yn yr amgylchiadau canlynol;

(a) os bydd trydydd parti yn cytuno i wneud y taliadau ychwanegol(**8**); neu

(b) yn achos preswylydd perthnasol, os bydd y taliadau ychwanegol yn cael eu gwneud gan un neu'r ddau o'r personau canlynol;

(i) trydydd parti,

(**5**) 1948 p.29.
(**6**) 1990 p.19.
(**7**) O.S. 1992/2977; Diwygiwyd O.S. 1992/2977 gan O.S. 1993/964; O.S. 1993/2230; O.S. 1994/825; O.S. 1994/2386; O.S. 1995/858; O.S. 1995/3054; O.S. 1996/602; O.S. 1997/485; O.S. 1998/497; O.S. 1998/1730 mewn perthynas â Chymru a Lloegr a gan O.S. 2001/276 (Cy.12); O.S. 2001/1409 (Cy.95); ac O.S. 2002/814(Cy.94) mewn perthynas â Chymru.
(**8**) *Gweler* adran 54(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 am "*additional payments*".